Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Argymhellion Estyn: Adroddiad Cynnydd

# Hydref 2017

GwEGogledd.Cymru

| Cyd-destun a chefndir | Tystiolaeth |
|---|---|
| Ers yr arolygiad craidd, bu ailstrwythuro sylweddol o ran uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol, llywodraethu a chefnogaeth weinyddol GwE.<br><br>Ym mis Hydref 2016, comisiynodd y Prif Weithredwyr adolygiad trylwyr o'r gwasanaethau gwella ysgolion a'i swyddogaethau gweinyddol. Roedd yr adolygiad cyfansawdd yn cynnwys trafodaeth gydag ysgolion, hybiau, swyddogion yr awdurdodau lleol, prif weithredwyr a grwpiau o ymgynghorwyr her. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd y strwythur cyfredol yn addas i'r diben, a gwnaethpwyd cyfres o argymhellion i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:<br><br>• Ail strwythuro'r sefydliad i roi sylw i'r diffygion presennol;<br>• Datblygu model arweinyddiaeth ddosranedig a fydd yn rhoi mwy o rolau arwain i staff, a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau eu hunain;<br>• Newid y model gweithredu presennol i sicrhau bod pwyslais clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;<br>• Gweithredu model rheoli perfformiad unigol a gwasanaeth a fydd yn gymorth i roi sylw i argymhellion Estyn;<br>• ALl unigol i edrych ar eu cynhwysedd a'u gallu cyfredol i weithio mewn partneriaeth gyda GwE, i sicrhau bod perfformiad yn gwella;<br>• Adolygu'r strwythurau Llywodraethu, ochr yn ochr ag adolygiad nesaf y Model Cenedlaethol;<br>• Datblygu eglurder rhwng blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol fel eu bod yn ategu ei gilydd, yn hytrach na chystadlu;<br>• Adolygu'r cynllun busnes ymhellach fel bod pawb yn deall beth yw blaenoriaethau GwE;<br>• Crisialu rolau staff, yn enwedig uwch staff, fel bod blaenoriaethau yn cael eu cyflawni; ac<br>• Adolygu model cefnogi busnes GwE sy'n weithredol.<br><br>Derbyniodd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yr holl argymhellion, yn llawn, ac fe'u gweithredwyd.<br><br>Mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau breision a chyflym i ailstrwythuro ei dîm arweinyddiaeth a gweinyddol. O ganlyniad i hyn, mae mwy o gysondeb ar draws y gwasanaeth ac eglurder o ran atebolrwydd y tîm a'r gwasanaeth.<br><br>Mewn cyfnod byr iawn o amser, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i:<br><br>• Sefydlu gweledigaeth glir i'r gwasanaeth;<br>• Cytuno ar flaenoriaethau clir sy'n cyd-fynd ag agenda diwygio Llywodraeth Cymru;<br>• Cytuno ar werthoedd eglur ac isafswm disgwyliadau; | Adroddiad adolygu<br>Polisi Rheoli Perfformiad<br>Gweledigaeth (gweler Cynlluniau Busnes)<br>Amcanion 2020 (Gweler Cynlluniau Busnes)<br>Strwythur Newydd (gweler Cynlluniau Busnes)<br>Strwythur Atebolrwydd (Gweler Cynlluniau Busnes) |

| | |
|---|---|
| • Gosod amcanion dyheadol ar gyfer 2020 ble bydd y rhanbarth yr un sy'n perfformio orau yng Nghymru;<br>• Cysylltu amcanion 2020 mewn fframwaith gwerth am arian;<br>• Ail lunio swydd ddisgrifiadau staff i gynnwys gwerthoedd y gwasanaeth, isafswm disgwyliadau a sut y byddant yn datblygu yn eu rolau;<br>• Cyflwyno model rheoli perfformiad staff newydd gyda phwyslais ar ddatblygiad proffesiynol parhaus;<br>• Cyflwyno system cynllunio busnes a phenodi newydd, a chryfhau cysondeb darparu drwy benodi Swyddog Rheoli Perfformiad newydd;<br>• Datblygu ysbryd cryf o weithio fel tîm;<br>• Dadelfennu'r system flaenorol o weithio ar sail hybiau, a gwreiddio diwylliant o weithio'n rhanbarthol yn y Gogledd;<br>• Sefydlu haen arweinyddiaeth newydd o fewn y gwasanaeth, gyda thri uwch arweinydd ar gyfer y cynradd, yr uwchradd, ac ar gyfer goruchwylio datblygiadau traws-sector gyda Dyfodol Llwyddiannus (Cwricwlwm i Gymru);<br>• Grymuso'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu a sicrhau atebolrwydd efo'r AauLl, drwy gyfarfod yn rheolaidd gyda swyddogion;<br>• Meithrin perthynas gryfach a mwy effeithiol gyda'r deilyddion Portffolio newydd a'r cadeiryddion craffu;<br>• Cryfhau'n sylweddol y model uwchradd rhanbarthol i gynnwys chwe swyddog uwchradd arweiniol sy'n gyswllt i bob un o'r chwe awdurdod lleol. O ganlyniad, mae ein dull gweithredu yn fwy cyson a thrylwyr;<br>• Mabwysiadu model arweinyddiaeth ddosranedig ble mae gan arweinwyr portffolio fwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd am yrru gwelliannau mewn meysydd allweddol;<br>• Datblygu Gwasanaeth Gwybodaeth Reoli a phenodi arweinydd uned ansawdd a data rhanbarthol;<br>• Datblygu rhaglen gefnogaeth gref i helpu ysgolion baratoi am Cymwys am Oes, a rhagor o ddiwygiadau yn y byd addysg;<br>• Rhoi cynnig dysgu proffesiynol cyfansawdd at ei gilydd i wella safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn ysgolion;<br>• Gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor i arfarnu effaith ystod o raglenni GwE.<br><br>Wrth bwyso a mesur cynnydd GwE wrth roi sylw i bob argymhelliad, cynyddwyd yr ymrwymiad a'r ymroddiad gyda phob rhanddeiliad. Rydym wedi rhoi sylw i'r rhesymeg tu cefn i bob argymhelliad. Rydym wedi pwyso a mesur, yn ofalus, a ydym wedi gweithredu ar gyflymder da i roi sylw i bob argymhelliad, a'u gwreiddio yn llwyddiannus neu beidio. Yn sefydliad mawr a chymhleth, mae'r gwaith a gwblhawyd o fewn yr amserlen a osodwyd, yn sylweddol. Rydym hefyd yn ddiolchgar o'r gefnogaeth a gafwyd gan ein hawdurdodau lleol partner wrth roi sylw i'r argymhellion hyn. Roedd dau fater arall y buom ni yn eu hystyried, sef cyflymder y gwelliant yn dilyn ein hadolygiad mewnol trylwyr, a hefyd effaith cyflwyno'r meysydd llafur newydd mewn pynciau craidd, ar ganlyniadau cyfnod allweddol 4 yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol yn 2017. | |

| Cyflymder y cynnydd a'r effaith yn gyffredinol | Tystiolaeth |
|---|---|
| **Cyflymder y cynnydd**<br>Gan ystyried cymhlethdod GwE fel sefydliad, rydym o'r farn bod cyflymder y cynnydd yn ystod yr amser a roddwyd, wedi bod yn sylweddol. Bu newid sylweddol mewn diwylliant, ethos a disgwyliadau, fel y gwelir gyda'r model arweinyddiaeth sy'n gynyddol ddosranedig. Bu hyn yn ffactor arwyddocaol wrth gyflymu datblygiad y gwasanaeth. Sicrhaodd hyn gyfraniadau cynyddol ar bob lefel, gan arwain at fwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd. O ganlyniad i'r strwythur a'r strategaeth newydd, mae'r cydweithio rhwng GwE a'i randdeiliaid wedi gwella yn gyflym, gan arwain at ddull gweithredu cyffredin cliriach tuag at y weledigaeth gytûn. O ganlyniad, mae ein prif randdeiliaid yn hyderus iawn fod gan GwE y modd a'r gallu i wella safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar gyflymder da.<br><br>**Yr effaith yn gyffredinol**<br>• Bu newid sylweddol ers Arolygiad Craidd Estyn, a chaiff hyn effaith bositif ar berfformiad dysgwyr ar draws ysgolion a'r awdurdodau lleol. Mae tystiolaeth amlwg, felly, bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gweithdrefnau targedu a thracio yn fwy effeithiol a chyson i herio a chefnogi ysgolion.<br>• Mae perfformiad GwE yn y prif ddangosyddion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn parhau i wella'n gyflym, gyda'r rhanbarth yn perfformio uchaf o blith y pedwar consortiwm, ar hyn o bryd.<br>• Mae’r cynnydd o fewn y rhanbarth yn y Cyfnod Sylfaen dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ac, yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad GwE a'r ddau gonsortiwm oedd yn perfformio'n uwch yn y prif ddangosydd (L2+), wedi cau.<br>• Yn y mwyafrif o achosion, mae effaith yr her a'r gefnogaeth i'w gweld ar ffurf gwelliannau mewn awdurdodau lleol ac ysgolion unigol. Gwelir hyn mewn astudiaethau achos sy'n mesur effaith a gwerth am arian (a enghreifftir o dan A1 isod). Ble nad yw cyfraniad GwE wedi cael effaith, rydym wedi gofalu bod yr Awdurdod Lleol perthnasol yn cael gwybod am bryderon, fel bod modd iddynt wneud penderfyniadau mwy gwybodus gan ddefnyddio eu hystod o bwerau.<br>• Mae nifer yr ysgolion cynradd a roddwyd mewn categori Estyn (monitro Estyn, Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig), bron wedi haneru yn y ddwy flynedd ddiwethaf (o 46 yn 2013-15 i 26 yn 2015-17).<br>• Gwelwyd bod gwella proffil arolygu'r sector uwchradd yn un o'n prif flaenoriaethau, ac mae targedau heriol wedi'u cynnwys yn ein cynllunio busnes. Drwy newid y model gweithredu, sicrhawyd bod pwyslais clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yn Nghyfnod Allweddol 4.<br>• Mae trefniadau trylwyr a chyfansawdd ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Drwy ailstrwythuro patrwm staffio'r sefydliad a datblygu model arweinyddiaeth ddosranedig, bu | Gweler isod |

| | |
|---|---|
| cyfleoedd i staff ddatblygu ymhellach a miniogi sgiliau arwain personol. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd y gefnogaeth a'r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion.<br>• Mae cynlluniau busnes cadarn a manwl, sy'n gwbl seiliedig ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu, yn cyfrannu'n sylweddol at reoli a datblygu unigolion a thimau yn effeithiol.<br>• Mae cynlluniau busnes lleol yn adnabod, yn fanwl gywir, y materion allweddol, ym mhob awdurdod lleol. Cafodd hyn ddylanwad cadarnhaol ar berfformiad mewn nifer o feysydd a dangosyddion perfformiad allweddol (fel yr enghreifftir o dan A1 uchod).<br>• Mae'r Mynegai Iechyd Sefydliadol (OHI) yn nodi bod GwE yn sefydliad yn y chwartel uchaf, gyda chryfderau neilltuol o ran cyfeiriad, galluoedd, ac arweinyddiaeth.<br>• Mae model cynllunio a rheoli perfformiad gwell GwE yn nodi'n glir gweledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Mae eglurder ei gyfeiriad strategol a'i fframwaith atebolrwydd cadarn, yn nodweddion allweddol wrth symud ymlaen.<br>• Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. Arweinia hyn at welliant sylweddol ym mherfformiad ysgolion unigol, ac ar ddeilliannau rhanbarthol (fel yr enghreifftir o dan A1 uchod).<br>• Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfhawyd y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol. Mae adnoddau yn amlwg yn cyd-fynd â blaenoriaethau a defnyddir meini prawf penodol i fonitro ac arfarnu effaith y cyllid.<br>• Mae fframwaith ffurfiol wedi galluogi GwE i ddangos ac asesu gwerth am arian yn well. | |

| **A1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.** | **Tystiolaeth** |
|---|---|
| **Her a Chefnogaeth**<br><br>Ers yr arolygiad craidd, cafwyd gwared â'r model 3 hwb a sefydlwyd tîm rhanbarthol i sicrhau mwy o gysondeb. Mae strategaeth cefnogaeth a her newydd bellach ar waith. Sail cryfder y model newydd hwn yw bod arbenigedd a phrofiadau Uwch Arweinwyr, Ymgynghorwyr Her GwE ac Uwch Arweinwyr Ysgolion yn cael eu defnyddio er mwyn darparu arweiniad a chefnogaeth o safon uchel i ysgolion. Bellach, mae dull gweithredu mwy cyson ar draws y rhanbarth. Mae ansawdd yr ymgynghorwyr her wedi gwella'n sylweddol, yn enwedig yn yr uwchradd ble mae gan bob aelod gryn brofiad o arwain ar lefel uwch a llwyddiant o wella ysgolion.<br><br>Penodwyd Uwch Arweinwyr i'r Cynradd/Arbennig, Uwchradd/UCD a Dyfodol Llwyddiannus i arwain y timau rhanbarthol. Penodwyd deuddeg Arweinydd Craidd Uwchradd hefyd, gyda phob un yn gyswllt cynradd neu uwchradd i un o'r chwe Awdurdod Lleol. Maent yn gyfrifol am reoli llinell a sicrhau ansawdd gwaith y tîm o Ymgynghorwyr Her. Gyda hyn, mae cysondeb o ran y gweithredu a'r negeseuon a rennir ar draws y sectorau. Hefyd, mae ansawdd y cynlluniau ar gyfer pob ALI wedi gwella'n sylweddol. Mae'r arweinwyr craidd newydd hefyd yn cynnal deialog gyson a rheolaidd gyda'u hawdurdodau lleol cyswllt, sy'n sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o'r hyn mae GwE yn ei gynnig ar lefel Awdurdod Leol. Mae'r bartneriaeth wedi'i chryfhau ymhellach oherwydd y ddeialog broffesiynol hon.<br><br>Aeth yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) ati i adnabod eu cryfderau a'u profiadau, fel bod modd i'r gwasanaeth fanteisio'n well ar eu sgiliau. O ganlyniad i'n model Arweinyddiaeth Ddosranedig, adnabuwyd *Arweinwyr Portffolio* i sicrhau bod arweiniad a gwybodaeth, sy'n gyson a safonol, yn cael eu darparu i bob ysgol yn y rhanbarth. Drwy symud tuag at fodel arweinyddiaeth ddosranedig, bu modd cael strategaeth her a chefnogaeth fwy ymestynnol gydag aelodau'r tîm yn perchnogi penderfyniadau allweddol yn well. Mae aelodau'r tîm bellach yn fwy creadigol ac yn cynnig datrysiadau i wahanol faterion. Gyda'r gwelliant yn ein Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant uwchradd, mae sgiliau a phrofiadau staff ar lefel uwch i allu rhoi sylw i'r heriau hynny. O ganlyniad, caiff datrysiadau i broblemau eu mynegi, ac fe weithredir arnynt yn fwy effeithlon. Maent hefyd yn gyfrifol am arfarnu datblygiadau a chynnydd yn erbyn eu meysydd cyfrifoldeb, eto gan arwain at well perchnogaeth ar ddeilliannau.<br><br>Mae'r strategaeth her a chefnogaeth wedi llwyddo yn dda i sicrhau ystod o welliannau yn y sector cynradd. Roedd tuedd sylweddol o 82:16 yn y Model Cenedlaethol tuag at y sector cynradd, o ran yr adnoddau a'r gefnogaeth a gynigir gan GwE. Mae'r maes hwn yn cael sylw o fewn Cynlluniau Busnes cyfredol GwE, gyda 568 o ddyddiau cefnogaeth a her wedi'u hail ddosbarthu o'r sector cynradd i'r | Ffeiliau data perfformiad a dadansoddi<br>Adroddiad Blynyddol<br>Adroddiad Craffu Blynyddol Enghreifftiol<br>Adroddiad ar berfformiad y rhanbarth<br>Model a strategaeth uwchradd<br>Strategaeth gynradd<br>Strategaeth Dyfodol Llwyddiannus<br>Data categoreiddio<br>Data arolygu Estyn<br>Arweiniad ar osod targedau a thracio perfformiad<br>Targedau rhanbarthol<br>Astudiaethau achos<br><br>GwE Secondary School Improvement<br><br>GwE Primary School Improvement<br><br>GwE Successful Futures Strategy 201<br><br>Ratio Support Primary to Secondar |

sector uwchradd. Mae hyn wedi lleihau'r bwlch rhwng adnoddau'r sectorau cynradd ac uwchradd, o fod ychydig dros 60% i fod ychydig o dan 30% (68:29 gyda gweddill y dyraniad i ysgolion arbennig ac UCD). Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaeth GwE i wella perfformiad yn y sector uwchradd, ac yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4. Ceir manylion sut y mae'r adnoddau ychwanegol hyn wedi'u dyrannu i'r sector uwchradd yn y dystiolaeth atodol.

O ganlyniad, gwnaed newidiadau sylweddol er mwyn gwella'r model darparu i'r uwchradd. Gwnaed asesiad ar gyfer pob ysgol uwchradd i adnabod anghenion rhanbarthol a lleol i'w cefnogi a'u datblygu. Mae gan bob ysgol bellach raglen gefnogaeth sy'n fwy addas i'r diben, ac sy'n cyd-fynd yn well gyda chynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun cefnogaeth uwchradd, y mae'n rhaid i holl lywodraethwyr ysgolion ei gymeradwyo hefyd, yn diffinio sut mae GwE yn targedu ei adnoddau i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn meysydd â blaenoriaeth allweddol.

Ers yr arolygiad craidd, ac mewn cydweithrediad llawn â'r ALl, rydym wedi cynnal ymweliadau adolygu a monitro mewn ysgolion risg uchel. Effaith cynnal rhaglen strwythuredig o ymweliadau adolygu a chefnogi, yw ein bod bellach yn adnabod meysydd i'w gwella a'u datblygu mewn ysgolion uwchradd targed, a hynny'n effeithiol a phendant. Rhoddodd GwE y flaenoriaeth uchaf i ysgolion uwchradd Wrecsam yn ystod tymor yr Haf, a chynhaliwyd rhaglen ymweliadau adolygu. O ganlyniad, adnabuwyd meysydd ac agweddau allweddol i'w gwella ym mhob ysgol risg, a chytunwyd ar gynlluniau gwella cadarn gyda phob ysgol. Yn y Gynhadledd Gwella yn ddiweddar, cafwyd cydnabyddiaeth gan Estyn o'r modd cadarn y rhoddir sylw i welliannau yn y sector uwchradd. Mae ansawdd a miniogrwydd y cynlluniau cefnogaeth, i roi sylw i'r gwelliannau angenrheidiol, yn dangos yn glir y camau effeithiol a gymerwyd i wella'r defnydd o ddata a gwybodaeth, a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a dargedir.

Ar y cyd â phob ALl, mae gan bob ysgol uwchradd mewn categori statudol Estyn bellach Fwrdd Safonau i fonitro cynnydd tuag at y deilliannau disgwyliedig. Mae'r aelodau yn cynnwys y Pennaeth, yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt, y Swyddog Addysg a chynrychiolaeth o'r Corff Llywodraethu. Cyflwynir adroddiadau cynnydd i sylw'r Bwrdd Safonau Rhanbarthol .

Mae GwE hefyd wedi adnabod ysgolion partner uwchradd, yn rhan o'r rhaglen her a chefnogaeth uwchradd, i helpu ysgolion eraill ar eu teithiau gwella. Mae'r pennaeth partner hefyd yn cymryd rôl Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i'r ysgolion dan sylw, a chaiff ei ddwyn i gyfrif am weithredu a chynnydd gan Arweinydd Craidd yr Awdurdod. Gydag effaith y gwaith hwn yn 2016-17, gwelwyd nifer o newidiadau ar droed. Ym Meirionnydd, arweiniodd hyn at ffurfio rhwydweithiau traws-sefydliadol mwy effeithiol, a rhannu arbenigedd. Ar y llaw arall, bu'r ymdrechion yn ysgolion Wrecsam yn canolbwyntio fwy ar newidiadau mwy sylweddol mewn strwythurau a phrosesau uwch arweinyddiaeth, rhannu rhaglenni dysgu, calendr asesu ac adrodd diwygiedig, trefn adborth ac ymateb ddiwygiedig, a phroses sicrhau ansawdd pob hanner tymor. Am 2017-18, canolbwyntir ar wreiddio'r arferion er mwyn sicrhau bod effaith gynnar ar safonau.

Cryfder neilltuol ein model newydd yw rôl a dylanwad cynyddol ein Hymgynghorwyr Pynciol Craidd.

Gweithiant yn agos gydag YCG cyswllt ac Arweinwyr Craidd yr awdurdodau perthnasol i herio a chefnogi adrannau ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio. Drwy ddadansoddi data perfformiad a gwybodaeth, gan gynnwys targedau cychwynnol CA4 2017, mae adnoddau yn cael eu targedu'n fwy craff. Mae pob ysgol wedi cael 'asesiad risg' gyda'r gefnogaeth ddilynol ar gyfer TGAU ac/neu lythrennedd/rhifedd ar sail dull gweithredu 'ton', yn seiliedig ar anghenion. Ble mae'r pryderon mwyaf difrifol, targedir pecynnau cefnogaeth cynnar a dwys. Mabwysiadwyd y dull gweithredu 'ton' ar draws pob pwnc craidd, a chaiff effaith a chynnydd eu mesur a'u gwerthuso gan yr Ymgynghorwyr Pynciau Craidd a'r YCG cyswllt. Bydd yr Arweinwyr Craidd a'r YCG yn defnyddio data rhagamcanion rheolaidd i dracio cynnydd yn erbyn pecynnau cefnogaeth. Cryfhawyd y cyfathrebu rhwng yr Ymgynghorwyr Pynciau Craidd a'r YCG yn sylweddol, drwy newid y strwythur rheoli a chynnal cyfarfodydd cynnydd rheolaidd.

Hwyluswyd hefyd Rhwydweithiau Pynciau Craidd rhanbarthol a lleol i sicrhau DPP, gwybodaeth, ac arweiniad o ansawdd uchel i'r holl arweinwyr canol. Defnyddiwyd rhwydweithiau hefyd yn effeithiol i rannu'r arferion gorau ledled y rhanbarth; adnabod rhaglenni ymyrraeth effeithiol; trafod strategaethau i roi sylw i feysydd 'gwan' mewn unedau penodol neu bapurau arholiad, a chydweithio ar ddatblygu adnoddau. Mae eu gwaith wedi cael dylanwad cryf ar berfformiad ysgolion ac adrannau targed, gydag ysgolion unigol wedi elwa'n sylweddol. Ar ben y cyfarfodydd rhwydwaith, defnyddia'r YCG ddata perfformiad yn fwy effeithiol i gynllunio rhagor o gefnogaeth DPP i ysgolion. Caiff ysgolion eu grwpio a'u targedu ar sail eu hanghenion.

Ar gyfer 2017-18, mae cynlluniau busnes L3 yn weithredol i bob pwnc craidd, a dilynir trefn fonitro chwarterol.

Mae strwythur newydd y gwasanaeth a'r prosesau newydd a weithredwyd ers yr arolygiad craidd bellach yn darparu strwythur mwy effeithiol i fod yn herio a chefnogi ysgolion. Rydym eisoes yn gweld gwelliant mewn perfformiad ar draws ystod o ddangosyddion. Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gweithdrefnau gosod targedau a thracio yn effeithiol, ac mae effaith y targedu adnoddau yn amlwg yn gwneud gwahaniaeth.

**Sut mae GwE yn cefnogi pob ysgol i baratoi am y cwricwlwm newydd o fewn Dyfodol Llwyddiannus**

Bu llawer o ddatblygiadau yn GwE dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf, sydd wedi rhoi'r gwasanaeth mewn sefyllfa i ddatblygu a mireinio’r cynnig Dyfodol Llwyddiannus ar draws y rhanbarth. Drwy benodi Uwch Arweinydd Dyfodol Llwyddiannus llawn amser ym mis Ebrill 2016, llwyddwyd i greu mwy o gynhwysedd ac mae tîm craidd Dyfodol Llwyddiannus bellach yn cynnwys 3 o athrawon ar secondiad llawn amser, ac arweinydd digidol rhanbarthol 0.4. Mae gan bob un ohonynt ystod o brofiad ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd.
Rhoddwyd strategaeth Dyfodol Llwyddiannus at ei gilydd sy'n cynnwys manylion gwaith y 36 ysgol Arloesi yn GwE. Hefyd yn y strategaeth, nodir cyfeiriad clir ar sut fydd GwE yn mynd ati i gefnogi'r holl ysgolion i edrych ar eu parodrwydd am y cwricwlwm newydd a chefnogi ysgolion gyda'u paratoadau.

<table>
<tr>
<td>
Dyma brif bwyntiau'r strategaeth:
<ul>
<li>Penodi 53 Arweinydd Clwstwr Dyfodol Llwyddiannus ym mhob clwstwr uwchradd, a'u hysgolion cynradd dalgylch ar draws y rhanbarth, gyda dau gynrychiolydd o'r sector arbennig;</li>
<li>Mynd i'r afael ag egwyddorion rheoli newid ar gyfer cefnogi GwE ei hun i ddatblygu fframwaith rheoli newid, fel bod modd cynnig ystod eang o adnoddau ymarferol i bob ysgol;</li>
<li>Ar ben hynny, mae GwE wedi cydweithio i lunio hyfforddiant rheoli newid unigryw dros ddeuddydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arweinwyr ysgolion i fod yn asiantau rheoli newid lleol. Yn rhan o hyn, bydd arweinwyr yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i greu'r amodau sydd eu hangen i weithredu newid: Mae dros 65 o aelodau o blith arweinwyr ysgolion a staff GwE wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn llwyddiannus, gyda 100% yn pasio'r arholiad tystysgrif rhyngwladol. Ffurfiwyd rhwydweithiau o asiantau newid sy'n gallu ymwneud yn gryf gyda'r rhwydwaith presennol o Ysgolion Arloesi;</li>
<li>Bydd datblygu'r dangosfwrdd yn allweddol wrth gefnogi ysgolion i edrych ar eu parodrwydd yn erbyn fframwaith o isafswm disgwyliadau, ar sail amserlen dymhorol;</li>
<li>Gadael i Ymgynghorwyr Her fod yn greiddiol i ddatblygu Dyfodol Llwyddiannus drwy drefn arweinyddiaeth ddosranedig, a phenodi 3 arweinydd portffolio Dyfodol Llwyddiannus. Hefyd, mae gan GwE gynrychiolaeth mewn 4 o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad o fewn rolau arweinwyr consortia/is arweinwyr. Mae'r holl gynllunio ar draws y rhanbarth yn croesgyfeirio at y 4 Diben a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus.</li>
</ul>
O fewn strategaeth Dyfodol Llwyddiannus, mae cysylltiadau clir â'r timau Cynradd ac Uwchradd presennol. Rhoddir diweddariadau cyson ar ddiwygiadau'r cwricwlwm i bob Ymgynghorydd Her, er mwyn iddynt eu rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae blaenoriaethau a chamau gweithredu er mwyn codi safonau yn cael eu nodi mewn cynlluniau Dyfodol Llwyddiannus ble'n briodol. Bydd aelodau'r tîm Cynradd, Uwchradd a Dyfodol Llwyddiannus yn cydweithio, ble'n briodol, i ddiwallu'r blaenoriaethau hyn.<br><br>
Defnyddio Data<br><br>
Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae GwE wedi bod yn gweithredu prosesau cadarn ac effeithiol i sicrhau bod data perfformiad allweddol yn cael ei ddadansoddi mewn ffordd fwy fforensig a diagnostig ar lefel ranbarthol, lleol ac ysgol unigol. Rhoddwyd rhaglen hyfforddiant a chefnogaeth gyfansawdd ar waith i gefnogi ymgynghorwyr newydd gyda'r ffordd newydd o weithio. O ganlyniad, bydd arweinwyr ac ymgynghorwyr her unigol yn defnyddio data, fel rhan o'r drefn, i:
<ul>
<li>ddadansoddi perfformiad ar draws y rhanbarth;</li>
<li>adnabod, yn fanwl gywir, meysydd allweddol i'w gwella;</li>
<li>arfarnu effaith rhaglenni ymyrraeth penodol ar lefel cyrhaeddiad disgyblion;</li>
<li>monitro a thracio cynnydd ar lefel ranbarthol, ALl unigol, ac ysgol ar gyfer grwpiau o</li>
</ul>
</td>
<td>
Regional Performance Septem<br><br>
GwE Annual Report 16-17.docx<br><br>
Adroddiad Cynnydd Safonau G
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ddisgyblion;<br>• herio a chefnogi arweinwyr ysgol gyda'u taith tuag at welliant<br><br>Drwy ddadansoddi data yn gadarn, mae hyn wedi arwain at dargedu adnoddau yn fwy effeithiol, megis y dull gweithredu 'ton' sydd wedi'i fabwysiadu ym mhob pwnc craidd yn CA4 ar gyfer 2017-18.<br><br>Mae Uwch Arweinwyr bellach yn defnyddio data yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant, yn rhanbarthol a lleol, yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Craffir ar ddata a gwybodaeth hefyd yn fwy cadarn i fonitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu cytûn. Mae ansawdd y cynllunio, ar bob lefel, ar gyfer 2017-18 yn tanlinellu'r newid hwn. O ganlyniad, mae ansawdd yr wybodaeth a rennir gyda'r Bwrdd Rheoli wedi gwella'n sylweddol, fel bod modd i aelodau graffu a herio'r gwasanaeth yn sylweddol.<br><br>Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) i sefydlu systemau arfarnu mwy effeithiol i arfarnu effaith y gwaith. Bydd data a dadansoddiad arfarnol yn rhoi'r sefydliad mewn gwell sefyllfa i farnu gwerth am arian a chynllunio i'r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Her a Chefnogaeth Uwchradd, a sampl o'r rhaglenni dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth, wrthi'n cael eu harfarnu.<br><br>**Gweithdrefnau Tracio**<br><br>Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dangosfwrdd ysgol, i fod yn weithredol yn Nhymor yr Hydref er mwyn darparu data cyfredol a pharhaus. Mae hyn yn hwyluso cyfathrebu, cefnogi a herio ar lefel uwch rhwng y rhanddeiliaid allweddol, ac yn gadael i GwE fonitro, yn fwy effeithiol ac amserol, effaith y gwaith a chynnydd yr ysgolion yn erbyn blaenoriaethau cyffredin. Mae'n plethu systemau hefyd i gasglu a chyfnewid gwybodaeth a dysgu rhwng ysgolion. Mae GwE wrthi'n datblygu ysgol rithiol sy'n enghreifftio'r arferion gorau ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Drwy roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio data 'byw' a'r adroddiadau cynnydd diweddaraf, mae modd i'r sefydliad ddyrannu adnoddau yn fwy effeithiol ar draws y rhanbarth i sicrhau bod gwelliant yn digwydd yn gyflymach. Mynegwyd diddordeb cychwynnol gan OECD o safbwynt ymestyn y system i gynulleidfa fwy.<br><br>Drwy fabwysiadu'r System Rheoli Gwybodaeth, gellir:<br><br>• rhannu arferion da/rhagorol, y mae eu hansawdd wedi'u sicrhau<br>• rhoi mynediad i ysgolion at arlwy o gyfleoedd unigryw a pherthnasol i ddatblygu'n broffesiynol<br>• cael data 'byw' i Benaethiaid allu rhoi ymyrraeth amserol a mwy effeithiol ar waith<br>• cael gwybodaeth mewn 'amser real' am ysgolion a'u cynnydd<br>• defnyddio offeryn awdit ar gyfer mapio a chefnogi parodrwydd pob ysgol am 'Dyfodol Llwyddiannus' (sy'n adnabod anghenion presennol a chefnogi cynllunio i'r dyfodol)<br>• cael cerrig milltir pendant i'r ysgol ddarparu Meysydd Dysgu a Phrofiad unigol o fewn y cwricwlwm newydd. | Gweler y dystiolaeth yn 'Ffeil Prosiect CIEREI' |

- cael gafael ar ddogfennau a gwybodaeth allweddol, a hynny'n rhwydd
- rhoi pob math o ddata a gwybodaeth sy'n berthnasol i randdeiliaid allweddol, fel llywodraethwyr,
- cael ysgolion i arfarnu i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r gofynion statudol
- sicrhau mwy o gysondeb yng ngwaith yr Ymgynghorwyr Her, a chael prosesau sicrhau ansawdd mwy effeithiol ar waith
- cael cyfle i ddatblygu system agored i hwyluso cydweithio a gweithio rhwng ysgolion
- cael siop-un-stop i ysgolion, ALl a GwE

Yn sgil yr arolygiad craidd, penodwyd Arweinydd Uned Ansawdd a Data rhanbarthol. Mae hon yn swydd uwch sy'n gyfrifol am sicrhau bod data yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i wella perfformiad pob dysgwr ac ysgol ar draws y rhanbarth. Gyda phroses cipio data fwy cynhwysfawr drwy'r Uned Ddata, gall yr Ymgynghorwyr Her a Swyddogion yr ALl gael gafael ar ddata ar lefel ysgol, ALl a rhanbarth. Cynyddwyd capasiti yr Uned Ddata drwy benodi Rheolwr Data Cynorthwyol, sy'n golygu bod modd rheoli a dadansoddi data yn fwy effeithiol. Mae proses gadarnach ar gyfer gosod targedau a thracio ar lefel ranbarthol, er mwyn monitro data cynnydd gan bob ysgol drwy gydol y flwyddyn academaidd [gan gynnwys tracio grwpiau o ddysgwyr]. Cryfhawyd hyn ymhellach o fis Medi 2017.

Yn sgil ailstrwythuro GwE yn ddiweddar, penodwyd Arweinydd Llesiant a datblygwyd strategaeth ar gyfer gwella safonau llesiant. Mae hyn yn golygu defnyddio data i dracio cynnydd mewn agweddau eraill sy'n gysylltiedig â llesiant, tu hwnt i berfformiad a chyflawniad academaidd.

**Gosod targedau**

Cytunwyd ar dargedau heriol tair blynedd ar lefel ranbarthol, lleol, ysgol a disgybl. Caiff targedau a rhagamcanion eu herio'n gadarn, fel rhan o'r drefn. Mae holl dargedau'r Awdurdodau Lleol wedi'u seilio ar y canlynol:

- Casglu targedau gan ysgolion unigol
- Defnyddio safle PYD pob awdurdod i ragdybio perfformiad disgwyliedig
- Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth leol

Target Setting and Tracking Performanc

Targedau_Adolygiad_fer7.xlsx

Pennir targedau rhanbarthol drwy gyfrifo'r niferoedd disgyblion sydd eu hangen i gyrraedd targedau cytûn yr ALl, a'u cyfuno i gynhyrchu gwerth rhanbarthol. Cytunwyd ar dargedau ac fe'u rhannwyd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol. Adolygir targedau Cyfnod Allweddol 4 ar ôl dadansoddi canlyniadau 2017 yn fuan, a chael gafael ar feincnodau cenedlaethol a deilliannau wedi'u modelu.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda chynrychiolwyr o blith Penaethiaid ar draws y rhanbarth, wedi cyfrannu at ddatblygu Arweiniad Gosod Targedau a Thracio Perfformiad i ysgolion. Ar y cyfan, mae perthynas lawer gwell rhwng targedau a pherfformiad yn y Cyfnod Sylfaen drwodd i Gyfnod Allweddol 3, o gymharu â Chyfnod Allweddol 4.

Supportive Evidence - KS2.docx

**Effaith ar bob dysgwr**

**Asesiadau Athro**

Cydnabu ysgolion, awdurdodau lleol a GwE y bu elfen o ddryswch, yn y gorffennol, wrth benderfynu ar 'ffit orau' yn asesiadau athrawon. Cafodd ysgolion negeseuon cymysg wrth ddyfarnu lefel i ddysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol, gan arwain at ddiffyg eglurder. Mae cynlluniau gwaith wedi gwella cysondeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon, a rhannwyd dogfen ganllawiau gydag ysgolion i grisialu'r disgrifiadau a'r barnau 'ffit orau'. Eleni, cafodd ddylanwad cadarnhaol ar berfformiad disgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Yn 2017, mae perfformiad GwE yn y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi codi o'r 3ydd safle, yn y flwyddyn flaenorol, i'r safle cyntaf ymhlith y pedwar consortiwm. Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau disgwyliedig ac uwch, yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol. Yn 2017, gwelwyd cynnydd pellach hefyd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yng Nghyfnod Allweddol 3, gyda pherfformiad y rhanbarth yn dal i fod y gorau o blith y pedwar consortiwm.

Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS] yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol. Yn 2017, bu cynnydd sylweddol mewn dau awdurdod lleol. Ond, er gwaethaf cynnydd parhaus yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) ar draws y rhanbarth, erys perfformiad GwE yn is na'r disgwyl (3ydd ymhlith y 4 consortiwm). Mae cyflymder gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen mewn 4 Awdurdod Lleol yn dal yn flaenoriaeth allweddol. Er hynny, mae angen gwneud gwaith yn y Cyfnod Sylfaen i wella ansawdd y ddarpariaeth a chywirdeb asesiadau athrawon. Mae'r maes hwn yn cael sylw o fewn Cynlluniau Busnes GwE.

Target Setting and Tracking Performanc

Targedau_Adolygiad_fer7.xlsx

Drwy dargedu aelodau allweddol o staff addysgu Blwyddyn 5 a 6 i ganolbwyntio ar wella llythrennedd a rhifedd, llwyddwyd i wella perfformiad y rhanbarth yn y DPC a'r lefelau uwch yn CA2. Drwy gymharu targedau cychwynnol ym mis Tachwedd 2016, a'r asesiadau terfynol ym mis Gorffennaf 2017, gwelwyd bod cynnydd cyfartalog o 3.7% yn y DPC i ysgolion a gafodd gefnogaeth ddwys, o gymharu â chynnydd bach o 0.86% i bob ysgol arall yn y rhanbarth. Ar y lefelau uwch, cafwyd cynnydd cyfartalog o 3.90% gan yr ysgolion oedd yn cael cefnogaeth, sy'n 1.15% yn uwch na'r ffigwr o 2.75% yn ôl ysgolion eraill.

Supportive Evidence - KS2.docx

Mae gwelliannau sylweddol mewn ysgolion cynradd sydd wedi'u targedu i gael cefnogaeth ddwys, gan gynnwys y rheiny mewn categori monitro Estyn. Mae gweithredu wedi arwain at welliannau pendant mewn safonau, ac yn ansawdd yr arweinyddiaeth, y dysgu a'r addysgu. Yn yr enghraifft gyntaf, mae cefnogaeth ddwys i sefydlu gweithdrefnau hunan arfarnu mwy cadarn a gwella gweithdrefnau tracio disgyblion a gosod targedau, wedi arwain at welliant sylweddol mewn deilliannau diwedd cyfnod allweddol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch.

Yn yr enghraifft atodol, ceir astudiaeth achos o bresenoldeb wedi gwella'n sylweddol, felly hefyd safonau ysgrifennu a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y bechgyn yn cyflawni ar y lefelau uwch mewn mathemateg. Ar ben hynny, mae ansawdd yr arweinyddiaeth wedi gwella, gyda'r farn ar allu'r ysgol i wella yn symud i B yn y categoreiddio cenedlaethol.

Target Setting and Tracking Performanc

Targedau_Adolygiad_fer7.xlsx

Yn y drydedd enghraifft, mae cefnogaeth GwE wedi arwain at wyth ysgol â chanddynt anghenion tebyg o ran gwella safonau a darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen, yn cydweithio'n effeithiol. Cafodd hyn effaith gadarnhaol iawn ar wella safonau a darpariaeth yn yr ysgolion hyn.

Yn yr enghraifft olaf, mae ymchwil gweithredol mewn asesu ffurfiannol gyda dwy ysgol wedi arwain at welliannau pendant yn ansawdd yr addysg a safonau cyflawniad dros 600 o ddisgyblion.

**Effaith ar Gyfnod Allweddol 4**

Yn 2017, mae data Trothwy L2 Gynhwysol ar gyfer CA4 wedi amlygu llithriad sylweddol yn genedlaethol. Er hynny, mae'r bwlch rhwng perfformiad GwE a'r 2 gonsortiwm sy'n perfformio'n uwch, wedi cau o ryw 1%. Mae cyflymder y gwelliant yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dal yn flaenoriaeth allweddol.

Supportive Evidence - KS2.docx

Bu targedu ysgolion ac adrannau unigol yn llwyddiannus o ran sicrhau gwelliannau pendant yn CA4. Mae'r enghraifft atodol yn dangos sut mae cefnogaeth a her effeithiol wedi gwella prosesau hunan arfarnu, cynllunio ar gyfer gwelliant, sgiliau arweinyddiaeth ganol, ac wedi cael effaith bositif ar ansawdd y dysgu a'r addysgu. O ganlyniad, bu effaith bositif ar berfformiad CA4 hefyd. Fel yr enghreifftir mewn ysgol yn Sir y Fflint, darparwyd her a chefnogaeth effeithiol i'r Adran Saesneg i wella: cynllunio cwricwlwm;

Asesu ar gyfer Dysgu; tracio ac ymyrraeth a phrosesau hunan arfarnu. Yn 2017, bu cynnydd sylweddol o 18.4% yng ngraddau A*-C yr ysgol mewn Saesneg Iaith.

Mewn enghraifft arall, cyfrannodd y gefnogaeth Wyddoniaeth a ddarparwyd yn sylweddol at welliant mewn canlyniadau L2 Gwyddoniaeth (+18.3%) a gwelliant da mewn sgiliau arweinyddiaeth a gweithdrefnau atebolrwydd yr adran.

**Effaith ar grwpiau o ddysgwyr**

**Cyfnod Sylfaen**

Yn 2017, mae cynnydd rhanbarthol o bron i 2% yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DCS. Mae cynnydd mewn 4 o'r 6 awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint a Chonwy. Mae cynnydd ar sail ranbarthol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig:

Cymraeg Iaith (2.7%); Saesneg Iaith (1.5%); Datblygiad Mathemategol (1.5%) a Datblygiad Personol (3.3%). Gwelir hyn hefyd ar y deilliannau uwch (deilliant disgwyliedig +1): Cymraeg Iaith (3.8%); Saesneg Iaith (0.6%); Datblygiad Mathemategol (1.5%) a Datblygiad Personol (3.1%).

Yn 2017, mae'r gwahaniaeth rhanbarthol rhwng y rhywiau yn y DCS (-7.2%) yn debyg i'r hyn a welir ar lefel genedlaethol, gyda'r bwlch mwyaf i'w weld yng Nghonwy a Gwynedd. Mae'r bwlch yn y 4 Awdurdod Lleol arall yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau ar sail ranbarthol yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch (ac eithrio Cymraeg Iaith a Datblygiad Personol ar y deilliant disgwyliedig).

Mae canran y dysgwyr sydd â'r Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt (379 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DCS yn parhau i gynyddu (83.4% yn 2017). Mae canran y dysgwyr o gefndir ethnig heb fod yn Wyn-Brydeinig (588 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DCS yn parhau i gynyddu (84.2% yn 2017). Yn 2017, gwelwyd cynnydd i 42.1% yng nghanran y dysgwyr ag ADY (Datganiad a GY+ - 846 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DCS. (+3.4%). Ar y deilliannau uwch (deilliant disgwyliedig +1), mae cynnydd yn uwch neu'n debyg i'r cynnydd cenedlaethol.

**Cyfnod Allweddol 2**

Yn 2017, mae cynnydd rhanbarthol o fwy na 2% yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DPC. Mae cynnydd mewn 5 o'r 6 awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf yn Ynys Môn (8.7%) a Wrecsam (7.1%). Mae cynnydd ar sail ranbarthol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig: Cymraeg Iaith (3.5%); Saesneg Iaith (1.8%); Mathemateg (2.7%) a Gwyddoniaeth (1.5%). Gwelwyd hyn hefyd ar y lefel uwch (lefel ddisgwyliedig +1): Cymraeg Iaith (0.2%); Saesneg Iaith(3.3%); Mathemateg (4.2%) a Gwyddoniaeth (4.2%).

Yn 2017, mae'r gwahaniaeth rhanbarthol rhwng y rhywiau yn y DPC (-5.9%) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (-4.5%), gyda'r bwlch mwyaf i'w weld yn Sir Ddinbych (-8.4%) ac Ynys Môn (-7.6%). Yng Ngwynedd yn unig mae'r bwlch yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (-2.9%). Yn gyffredinol, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau ar sail ranbarthol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch (ac eithrio Iaith Gymraeg a Gwyddoniaeth ar y lefel uwch).

Mae tuedd tuag at welliant dros gyfnod treigl pum mlynedd, o ran perfformiad plant yn y rhanbarth sy'n derbyn gofal (cyfanswm o 82) sy'n cyflawni'r DPC. Yn 2017, mae canran y dysgwyr SIY (162 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC yn parhau i gynyddu i 85.2%(+4.7%). Am yr ail flwyddyn, bu gostyngiad i 45.8% yng nghanran y dysgwyr Sipsi/Teithwyr (24 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC. Mae canran y dysgwyr o gefndir ethnig heb fod yn Wyn-Brydeinig (458 i gyd ar draws y rhanbarth)sy'n cyflawni'r DPC yn parhau i gynyddu (89.5% yn 2017). Yn 2017, gwelwyd cynnydd i 52.2% yng nghanran y dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (Datganiad a Gweithredu Ysgol a Mwy - 978 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC. (+5.2%). Yn 2017 ar y lefel uwch (lefel ddisgwyliedig +1), mae cynnydd yn gyffredinol yn sylweddol uwch na'r cynnydd cyfartalog cenedlaethol.

**Cyfnod Allweddol 3**

Cynnydd bychan a welir yng nghanran y disgyblion PYD sy'n cyflawni'r DPC. Mae cynnydd mewn 4 o'r 6 awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf yn Wrecsam (3.2%), Gwynedd (2.8%) a Chonwy (2.1%). Fodd bynnag, mae gostyngiad yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DPC yn Sir y Fflint (-4.5%) a Sir Ddinbych (-0.7%). Mae cynnydd ar sail ranbarthol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig: Cymraeg Iaith (1.7%); Saesneg Iaith (1.5%); Mathemateg (1.3%) a Gwyddoniaeth (0.9%). Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni ar y lefel uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf (8.8%). Fodd bynnag, roedd y cynnydd lawer yn llai mewn Mathemateg (0.8%) a Gwyddoniaeth (0.5%) gyda gostyngiad bychan mewn Iaith Saesneg (-0.8%).

Yn 2017, mae'r gwahaniaeth rhanbarthol rhwng y rhywiau yn y DPC (-6.5%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (-7.4%), gyda'r bwlch mwyaf i'w weld yng Nghonwy (-7.5%), Sir Ddinbych (-8.1%) a Wrecsam (-9.7%). Yn 2017, mae'r bwlch rhwng y rhywiau ar sail ranbarthol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch ym mhob pwnc craidd.

Yn 2017, bu cynnydd yng nghanran PMG y rhanbarth (79 i gyd) sy'n cyflawni'r DPC (+6.4%) i 86.1%. Cyflawnodd bob dysgwr SIY (88 i gyd ar draws y rhanbarth) y DPC (+6.2%). Bu cynnydd i 96.1% yng nghanran y dysgwyr o gefndir ethnig heb fod yn Wyn-Brydeinig (337 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC (+2.1%). Yn 2017, roedd canran y dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (Datganiad a Gweithredu Ysgol a Mwy - 831 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC yn parhau i gynyddu i 72.3% (+0.5%). Ar y lefel uwch (lefel ddisgwyliedig +1), mae cynnydd yn y pynciau craidd yn amrywio o'i gymharu â'r cynnydd cyfartalog cenedlaethol: Cymraeg Iaith (5.8% o'i gymharu â 5.7% yn genedlaethol); Saesneg Iaith (1.7% o'i gymharu â 2.5% yn genedlaethol); Mathemateg (2.4% o'i gymharu â 2.7% yn genedlaethol) a Gwyddoniaeth (3.8% o'i gymharu â 2.6% yn genedlaethol).

**Cyfnod Allweddol 4**

Gwneir dadansoddiad trylwyr o berfformiad grwpiau o ddysgwyr pan fydd y data ar gael ym mis Hydref. Yn gyffredinol, mae cyflymder y gwelliant ym mherfformiad dysgwyr PYD yn y prif ddangosyddion yn CA4, yn dal yn her. Mae gwella perfformiad dysgwyr PYD yn dal yn flaenoriaeth allweddol i'r rhanbarth. Rhoddir sylw i faterion yn ymwneud â chau'r bwlch rhwng perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr, a gwella cyflawniad disgyblion MAT, a hynny drwy gyfrwng y Cynlluniau Busnes Lefel 3 a Chynlluniau Busnes yr ALl unigol.

Mae cydweithio ysgol i ysgol wedi arwain at welliannau sylweddol yn ansawdd y ddarpariaeth mewn grwpiau o ysgolion sy'n cydweithio ac yn rhannu arferion da. Yn yr enghraifft a roddir, mae'r cydweithio rhwng ysgolion wedi arwain at gyfoethogi'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen a chodi lefel yr her i bob disgybl, yn enwedig y disgyblion mwy abl a thalentog. Mae'r astudiaeth achos yn amlygu cynnydd graddol mewn un ysgol ar y deilliannau uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae cydweithio ysgol i ysgol hefyd wedi arwain at welliannau sylweddol mewn safonau grwpiau o ddisgyblion. Yn yr enghraifft a roddir, gwelwyd cynnydd sylweddol ym mherfformiad merched ar y lefelau uwch mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Hefyd, gwelwyd agwedd fwy cadarnhaol

Tystiolaeth gefnogol Ysgolion C

Tystiolaeth gefnogol - Mathema

Supportive Evidence - LAC.docx

at y pwnc.

Defnyddiwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal.

Effaith ar Awdurdodau Lleol unigol

| | 2015 | | | | 2016 | | | | 2017 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | DCS | DPC CA2 | DPC CA3 | L2+ | DCS | DPC CA2 | DPC CA3 | L2+ | DCS | DPC CA2 | DPC CA3 | *L2+ |
| **Ynys Môn (7)** | 15 | 3 | 9 | 12 | 20 | 9 | 7 | 13 | 17 | 4 | 9 | 14 |
| **Gwynedd (4)** | 10 | 6 | 1 | 5 | 14 | 7 | 2 | 4 | 15 | 3 | 1 | 5 |
| **Conwy (9)** | 21 | 19 | 6 | 18 | 21 | 20 | 9 | 17 | 21 | 19 | 8 | 12 |
| **Sir Ddinbych (14)** | 13 | 12 | 12 | 14 | 10 | 14 | 12 | 14 | 20 | 17 | 18 | 17 |
| **Sir y Fflint (6)** | 9 | 11 | 7 | 8 | 13 | 5 | 6 | 10 | 5 | 6 | 5 | 8 |
| **Wrecsam (10)** | 19 | 14 | 19 | 20 | 15 | 18 | 16 | 18 | 11 | 7 | 16 | 19 |
| **GwE (1)** | 4 | 2 | 1 | 3 | 3 | 3 | 1 | 3 | 3 | 1 | 1 | 3 |

Yn y Cyfnod Sylfaen, bu cynnydd cadarn yn Sir y Fflint a Wrecsam gyda'r ddau awdurdod yn perfformio yn ôl y disgwyl mewn perthynas â'u safle prydau ysgol am ddim. Mae cynyddu cyflymder y gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych yn dal yn flaenoriaeth. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae perfformiad GwE yn y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) wedi codi, o'r 3ydd safle yn y flwyddyn flaenorol, i'r safle 1af ymhlith y pedwar consortiwm. Mae pedwar o'r chwe awdurdod yn perfformio'n dda, gyda dim ond Conwy yn perfformio'n sylweddol is na'i safle PYD. Yng nghyfnod allweddol 3, mae pedwar o'r chwe Awdurdod Lleol yn perfformio'n gryf. Serch hynny, mae gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yn dal yn flaenoriaeth. Yng Nghyfnod Allweddol 4, yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau yn y L2+ yw Gwynedd, a Wrecsam yw'r isaf. Er hynny, mae'r bwlch wedi cau yn sylweddol o 1.9%. Mae perfformiad cymharol yr AauLl wedi gwella yng Nghonwy a Sir y Fflint tra bo Ynys Môn a Wrecsam yn parhau ychydig yn is na'u safle PYD.

Supportive Evidence - English W

Drwy dargedu cynhaliaeth estynedig i Awdurdod Lleol Wrecsam, cafwyd cynnydd sylweddol mewn canlyniadau TGAU Saesneg Iaith (+5.7% A*-C). Darparwyd y gynhaliaeth drwy gyfarfodydd Penaethiaid Saesneg rheolaidd, ble roedd holl ysgolion uwchradd Wrecsam yn bresennol, a hefyd i ysgolion unigol drwy dargedu cynhaliaeth. Darparwyd hyfforddiant DPP i wella sgiliau ysgrifennu hefyd i holl ysgolion uwchradd Wrecsam. Mae tystiolaeth bendant fod y gwaith wedi cael effaith ar berfformiad ac wedi arwain at wella tracio ac ymyrraeth, gyda data yn cael ei ddefnyddio'n fwy pwrpasol i dargedu'r camau nesaf yn y dysgu. Gwelwyd asesu ac adborth yn gwella hefyd, felly hefyd ansawdd ysgrifennu estynedig.

Tystiolaeth Gefnogol - Cyfnod S

Tystiolaeth gefnogol - Gweithc

Yn ôl tystiolaeth wrth ymweld ag ysgolion yn Sir y Fflint a Wrecsam, roedd diffyg cysondeb yn lefel yr her i ddisgyblion mewn tasgau ffocws a'r ddarpariaeth yn nosbarthiadau Blwyddyn 1 a 2. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol yn sgil gweithredu ar lefel sirol, clwstwr ac ysgolion unigol. Yn 2017, mae awdurdodau bellach yn perfformio yn unol â'u safle PYD yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen. Gwelwyd

cynnydd da iawn hefyd ar Ddeilliant 6+, a oedd yn sylweddol uwch, ar gyfartaledd, na hwnnw a welwyd yn genedlaethol. Yn 2017, bu cynnydd o 4.2% yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DCS yn Sir y Fflint, gyda Wrecsam yn dal ei thir.

Bu gwaith ar weithgareddau 'gwaelodlin' a 'datblygiad pellach' mewn cynllunio strategol a hunan arfarnu yn llwyddiannus iawn yng Ngwynedd a Môn. Drwy fynnu presenoldeb llawn penaethiaid o'r ddau awdurdod ym mhob gweithgaredd, sicrhawyd bod negeseuon allweddol wedi cael eu rhannu gyda phob ysgol. Bu defnyddio enghreifftiau o ysgolion arfer dda yn ffordd o dynnu sylw at y gwelliannau angenrheidiol i ysgolion llai effeithiol. Prif effaith hyn fu lleihau nifer yr ysgolion mewn categori 'monitro Estyn', a chynnydd sylweddol yn nifer yr ysgolion yn cael dyfarniad A neu B yn eu gallu i wella mewn categoreiddio cenedlaethol.

**Effaith ar ysgolion sy'n peri pryder ac mewn categori statudol Estyn**

Mae tystiolaeth glir sy'n dangos bod cefnogaeth GwE i fwyafrif yr ysgolion sy'n peri pryder, neu a roddwyd mewn categori statudol, wedi bod yn allweddol wrth gyflymu eu taith tuag at welliant.

**Uwchradd**
Cytunwyd ar gynllun cefnogaeth pwrpasol i'r holl ysgolion mewn categori statudol, a chafodd cynnydd ei fonitro pob tymor. Arweiniodd hyn at welliannau sylweddol, gyda llawer yn cael eu tynnu o'r categori o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Yn achos Dyffryn Nantlle, cyflymwyd y gwelliannau yn sylweddol oherwydd y cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol, yr awdurdod a GwE. O'r 8 ysgol sydd mewn categori statudol ar hyn o bryd [dim ond yn ddiweddar iawn y gosodwyd 3 ohonynt yno], rydym wedi gweld gwelliannau mewn tair ysgol. Erys diffygion cryf am y diffyg cynnydd mewn dwy ysgol, ac mae'r rhain wedi cael eu cyfleu'n gyson i uwch swyddogion yr awdurdod. Yn ddiweddar iawn, symudwyd dwy ysgol o'r categori Monitro Estyn i Welliant Sylweddol, gyda phryderon am berfformiad CA4 mewn lleiafrif o bynciau craidd yn trechu penderfyniad Estyn. Wrth i Estyn ailymweld â'r ddwy ysgol, gwelwyd gwelliannau pendant yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd a chyfeiriwyd yn benodol yn un o'r arolygiadau at ansawdd ac effaith gwaith yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt. Rhoddwyd un ysgol arall mewn categori Gwelliant Sylweddol yn ddiweddar, gydag Estyn unwaith eto yn nodi ansawdd ac effaith cychwynnol Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant newydd yr ysgol.

I fwyafrif yr ysgolion a roddwyd mewn categori Monitro Estyn, cyflawnwyd eu gwelliannau o fewn yr amserlen ddiwygiedig. Yn achos Ysgol Syr Hugh Owen, cyflawnwyd hyn mewn cyfnod byr o amser - eto oherwydd y cydweithio rhagorol gyda'r YCG cyswllt. O'r 7 ysgol ranbarthol sydd mewn categori Monitro Estyn ar hyn o bryd, gwelsom gynnydd cryf ym mron pob sefydliad, a byddem yn disgwyl iddynt gael eu tynnu o'r categori dilyniant o fewn yr amserlen ddisgwyliedig.

Fodd bynnag, er bod tystiolaeth o arferion da iawn mewn ysgolion unigol, nid yw ansawdd y gefnogaeth a'r her wedi bod yn gyson ar draws pob ardal yn y rhanbarth. O ganlyniad, nid yw ychydig

o ysgolion mewn categori wedi gallu dangos y gwelliannau angenrheidiol. Mae anghysondebau gweithredu bellach wedi cael sylw o fewn prosesau sicrhau ansawdd a monitro y model uwchradd.

Gwelwyd bod gwella proffil arolygu'r rhanbarth yn un o'n prif flaenoriaethau, ac mae targedau heriol wedi'u cynnwys yn ein cynllunio busnes ni. Gorffennwyd adnabod yr ysgolion 'risg' nad ydynt mewn categori dilyniant, a datblygwyd cynllun cefnogaeth cyfansawdd a'i rannu gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r gweithredu yn 2016-17 wedi arwain at welliannau mewn 5 o'r ysgolion hynny. Er hynny, erys pryderon cryf am 4 ysgol ac mae trafodaethau efo swyddogion yr ALI wedi'u huwchraddio.

Wrth ddadansoddi proffiliau arolygu cynradd y rhanbarth am 2016-17 [55 ysgol ranbarthol] a 2017-18,[54 ysgol rhanbarthol], gwelir darlun sy'n gwella'n raddol:

2016-17

- 4 ysgol mewn Mesurau Arbennig [7.3%]
- 6 ysgol angen Gwelliant Sylweddol [10.9%]
- 10 ysgol mewn categori statudol MA/GS [18.2%]
- 9 ysgol mewn categori Monitro Estyn [16.3%]

2017-18

- 3 ysgol mewn Mesurau Arbennig [5.5%]
- 5 ysgol angen Gwelliant Sylweddol [9.2%]
- 8 ysgol mewn categori statudol MA/GS [14.8%]
- 7 ysgol mewn categori Monitro Estyn [12.9%]

Gwelwyd gwelliannau sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr o amser mewn ysgol uwchradd ble targedwyd cefnogaeth ddwys. Tynnwyd yr ysgol o 'Fesurau Arbennig' mewn cyfnod o 4 tymor. Gwelwyd gwelliannau sylweddol yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn ansawdd yr arweinyddiaeth, y dysgu a'r addysgu. Mae'r gwelliannau wedi sicrhau dycnwch a chynaliadwyedd.

Yn yr ail enghraifft, bu GwE yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol a'r ysgol i sicrhau bod cynhwysedd a strwythur yr arweinyddiaeth yn briodol. Mae GwE wedi darparu cefnogaeth effeithiol i wella meysydd allweddol gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth, y dysgu a'r addysgu wedi gwella'n fawr. Mae'r canlyniadau dros dro yn dangos bod y dangosydd L2+ wedi gwella'n sylweddol (o 12% cyn ail farcio). Gan ystyried y llithriad yn genedlaethol yn y prif ddangosydd yn CA4, mae tystiolaeth gref i awgrymu y bydd yr ysgol wedi perfformio'n dda, o gymharu ag ysgolion eraill.

**Cynradd**

Mae tystiolaeth glir sy'n dangos bod cefnogaeth GwE wedi bod yn ffactor arwyddocaol wrth gyflymu taith tuag at welliant pob ysgol gynradd a roddwyd mewn categori statudol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fel y gwelir yn Clawdd Offa.

Tystiolaeth gefnogol - YDN.doc:

Supportive Evidence - St Davids

Supportive Evidence - Clawdd C

Ar gyfer pob ysgol gynradd a roddwyd mewn categori statudol, cytunwyd ar gynllun cefnogaeth pwrpasol, a chafodd cynnydd ei fonitro pob hanner tymor. Aethpwyd ati i fonitro drwy gyfrwng panel gwella yn cynnwys UDA a llywodraethwyr yr ysgol, swyddogion yr ALl ac ymgynghorwyr GwE. Arweiniodd hyn at y gwelliannau dymunol, gyda bron pob ysgol gynradd yn cael ei thynnu o'r categori o fewn yr amserlen ddisgwyliedig.

Yn ystod 2016 a 2017, tynnwyd pum ysgol o'r categori statudol. Gwnaeth pob un gynnydd da yn erbyn yr argymhellion. Gwnaeth ESTYN y sylw bod un ysgol wedi'i thynnu mewn cyfnod byr o amser na welwyd mo'i debyg, a'i bod yn enghraifft ragorol o ysgol, gyda'r ALl a GwE yn gweithio ar y cyd i sicrhau gwelliant.

Mae un ysgol yn dal mewn Mesurau Arbennig ers mis Hydref 2015, ond disgwylir iddi gael ei thynnu'n fuan. Nododd Estyn fod GwE wedi darparu cefnogaeth sylweddol i'r ysgol, a bod materion arweinyddiaeth mewnol wedi llesteirio cynnydd ar y dechrau.

Mae pedair ysgol arall mewn categori statudol ar hyn o bryd; dwy mewn Mesurau Arbennig a dwy mewn Gwelliant Sylweddol. Roedd tair o'r ysgolion hyn i gyd yn ysgolion yr oedd GwE wedi amlygu bod pryderon sylweddol yn eu cylch. Rhoddwyd gwybod i'r ALl ac roedd cynlluniau cefnogaeth cyfansawdd eisoes ar waith. Mae'r cynnydd ar y dechrau wedi bod yn gadarnhaol yn y pedair ysgol.

Tynnwyd pob ysgol a roddwyd mewn categori Monitro Estyn yn 2015/16, o'r categori hwnnw yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Mae pob ysgol sy'n dal mewn categori monitro Estyn yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae'r prosesau a'r strategaethau a ddefnyddia Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i gefnogi ysgolion ddod allan o gategori, yn gryfder yn y rhanbarth.

Yn nwy flynedd gyntaf GwE, roedd nifer yr ysgolion a roddwyd mewn categori monitro Estyn yn 38 (19 yn 2013/14 a 2014/15). Ers hynny, bu lleihad sylweddol gyda 19 wedi'u rhoi mewn categori monitro Estyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf (10 yn 2015/16 a 9 yn 2016/17).

At ei gilydd, os ydym yn cynnwys pob categori Estyn (monitro Estyn, Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig), mae nifer yr ysgolion a roddir mewn categori wedi haneru bron yn y ddwy flynedd ddiwethaf (o 46 yn 2013-15 i 26 yn 2015-17).

Wrth ddadansoddi proffiliau arolygu y rhanbarth am 2016-17 [367 o ysgolion rhanbarthol], gwelir hefyd darlun sy'n gwella'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf:

2016-17

- 3 ysgol mewn Mesurau Arbennig [0.8%]
- 3 ysgol angen Gwelliant Sylweddol [0.8%]
- 6 ysgol mewn categori statudol MA/GS [1.6%]

- 10 ysgol mewn categori Monitro Estyn [2.7%]

2017-18

- 3 ysgol mewn Mesurau Arbennig [0.8%]
- 2 ysgol angen Gwelliant Sylweddol [0.5%]
- 5 ysgol mewn categori statudol MA/GS [1.3%]
- 9 ysgol mewn categori Monitro Estyn [2.4%]

**Adroddiadau cyn-arolygiad**

| Adroddiadau cyn-arolygiad | | |
|---|---|---|
| | **Pryderon sylweddol neu fawr (2014-hyd yma)** | **Pryderon sylweddol neu fawr (2014-hyd yma)** |
| **CSC** | 22.4% | 14.3% |
| **EAS** | 17.0% | 4.3% |
| **ERW** | 23.8% | 18.5% |
| **GwE** | 16.1% | 6.7% |

Ers 2014, dengys adborth Estyn fod llai o bryderon am adroddiadau cyn-arolygiad ALl o ranbarth GwE, nag o gonsortia eraill. Mae canran yr adroddiadau sy'n achosi pryder hefyd wedi lleihau'n sylweddol rhwng y flwyddyn a'r flwyddyn a hanner ddiwethaf.

**Casgliad**

Mae tystiolaeth bendant bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gweithdrefnau targedu a thracio yn fwy effeithiol i herio a chefnogi ysgolion er mwyn gwella perfformiad pob dysgwr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol. Yn fyr, mae perfformiad GwE yn y prif ddangosyddion yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn parhau i wella, gyda'r rhanbarth yn perfformio uchaf o blith y pedwar consortiwm, ar hyn o bryd. Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yn y Cyfnod Sylfaen dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ac, yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad GwE a'r ddau gonsortiwm oedd yn perfformio'n uwch yn y prif ddangosydd (L2+), wedi cau.

Ar ben hynny, mae astudiaethau achos sy'n mesur effaith a gwerth am arian (fel yr enghreifftir uchod) yn dangos a thystiolaethu, yn glir, effaith yr her a'r gefnogaeth gan GwE i wella perfformiad pob dysgwr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol.

**Cynnydd: Cryf. Rhoddwyd sylw i'r argymhelliad yn y rhan fwyaf o ystyron, a dim ond mân agweddau sydd angen sylw pellach. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella safonau a darpariaeth.**

| A2: Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. | Tystiolaeth |
|---|---|
| Mae hunan arfarnu a phrosesau cynllunio gwelliant, ar bob lefel, bellach wedi'u gwreiddio mewn darparu gwasanaethau gwella ysgolion. Ymhlith y prosesau hyn mae:<br><br>• fframwaith atebolrwydd cryf<br>• arfarniad data manwl;<br>• cynllunio busnes manwl, ar bob lefel, sy'n bwydo i'r cynllun lefel un;<br>• rheoli risg;<br>• cynllun busnes awdurdod lleol manwl sy'n adlewyrchu materion lleol yn fanwl gywir; a'r<br>• adroddiad blynyddol.<br><br>Yn dilyn yr arolygiad craidd, ceir fframwaith atebolrwydd cadarn sy'n gofalu bod gan bob maes gwasanaeth swyddog arweiniol dynodedig sydd wedi'i enwebu. Mae pob swyddog arweiniol enwebedig yn gyfrifol am ddatblygu cynllun busnes manwl i'w faes gwasanaeth, sy'n cynnwys dyddiadau cwblhau pendant, goblygiadau o ran hyfforddiant a meini prawf llwyddiant sy'n fesuradwy. Mae'r blaenoriaethau cytûn yn y cynlluniau busnes yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu pob chwarter, ac adroddir ar y canfyddiadau i'r uwch arweinwyr a'r bwrdd rheoli. Caiff cynnydd ei raddio'n briodol, a bydd uwch arweinwyr yn herio unrhyw lithriad mewn cynnydd disgwyliedig. Drwy adolygu'r cynlluniau busnes yn rheolaidd ar bob lefel, gall uwch arweinwyr arfarnu'n fanwl gywir y cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynlluniau busnes lefel uchel. Drwy hyn, sicrheir bod y cynlluniau busnes yn aros yn hyblyg i gynnwys blaenoriaethau newydd yn ystod y cyfnod monitro, os oes angen. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r YCG uwchradd craidd arweiniol. Ym mhob cynllun, ceir materion allweddol o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â chynllun gwella unigryw i roi sylw i'r heriau penodol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson mewn cyfarfodydd rhwng yr YCG craidd arweiniol a'r pennaeth gwasanaeth. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at uwch arweinwyr GwE yn amserol.<br><br>Mae'r prosesau arfarnu sydd bellach ar waith yn gylchol a pharhaus. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr. Mae'r fframwaith atebolrwydd a'r prosesau monitro manwl yn ffurfio rhan sylfaenol o ymroddiad GwE i gynnal gwelliant. Mae'r drefn yn cyfrannu'n sylweddol at reoli a datblygu unigolion a thimau yn effeithiol, er mwyn iddyn nhw, a'r sefydliad, allu perfformio ar lefel uchel. .<br><br>Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ddogfen glir a chyfansawdd sy'n rhoi arfarniad trylwyr a manwl gywir o sut mae'r gwasanaeth yn perfformio, ar hyn o bryd, ar draws y rhanbarth. Mae arweinwyr yn gwneud gwell defnydd o ystod cyfansawdd o ddata perfformiad, y maent yn ei ddadansoddi'n gadarn, i gymharu perfformiad y chwe awdurdod lleol gydag awdurdodau lleol tebyg, ar sail hawl PYD, perfformiad y rhanbarth o gymharu ag eraill ar draws Cymru, a chyflymder y gwelliant o ran cyflawni'r targedau cytûn. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r Adroddiad Blynyddol a'r blaenoriaethau yng nghynlluniau busnes y gwasanaeth, sydd wedi'u hadnabod yn ôl risg ac effaith. | Adroddiad Blynyddol<br>Fframwaith Atebolrwydd (gweler y Cynllun Busnes)<br>Cynllun L1<br>CB Cynradd<br>CB Uwchradd<br>CB DLI<br>CB ALI<br>Cynlluniau L3<br>Adroddiadau Monitro chwarterol<br>Cyfarfodydd ALI<br>Dadansoddi Data<br>Holiaduron i ysgolion |

| | |
|---|---|
| Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) i sefydlu systemau mwy effeithiol i arfarnu effaith ei waith dros gyfnod amser hwy. Bydd data a dadansoddiad arfarnol yn helpu GwE ymhellach i allu barnu gwerth am arian a chynllunio i'r dyfodol.<br><br>Defnyddiodd Ysgol Chwaraeon, Iechyd a Gwyddorau Ymarfer Corff Prifysgol Bangor ddull ymchwil rhyngwladol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn arfarnu Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG) GwE. Mae'r canlyniadau yn dangos bod y RhDAG yn rhaglen datblygu arweinyddiaeth hynod effeithiol, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr athrawon a'u hysgolion hwythau. Mae'r canlyniadau yn awgrymu bod y RhDAG yn cael effaith arwyddocaol yn ôl yn yr ysgolion. Dywed 64% o'r athrawon fod y rhaglen yn heriol iawn, o leiaf, ac felly bod y rhaglen yn "ymestyn" yr athrawon. Mae angen gosod hyn ochr yn ochr efo'r canlyniadau ansoddol, sy'n nodi ymateb llethol gadarnhaol i'r rhaglen, yn canoli ar yr awydd i ddysgu rhagor. Mae GwE hefyd wedi cynnal adolygiad effaith a dylanwad manwl ymysg yr ymgeiswyr. Mae'r rhaglen her a chefnogaeth uwchradd wrthi'n cael ei harfarnu gan ddefnyddio dull tebyg.<br><br>Mae'r broses arfarnu hon yn bwydo i'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac yn rhoi GwE mewn sefyllfa i ddatblygu a gwella'r modd y darperir rhaglenni dysgu proffesiynol ar draws y rhanbarth yn y dyfodol. Yn rhan o'r cydweithio hwn gyda'r Brifysgol, mae GwE wedi llwyddo i sicrhau myfyriwr Ysgoloriaeth Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) i arwain ar yr elfen hon a datblygu ar y gwersi a ddysgwyd. Bydd y dull arfarnu hwn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, hefyd yn cael ei ddefnyddio ym mhob trefn arfarnu gan GwE yn y dyfodol.<br><br>Drwy'r gwaith a wnaed yn ddiweddar i ddatblygu dangosfwrdd ysgol, rhydd hyn ddata cyfredol a pharhaus i GwE. Mae hyn yn hwyluso cyfathrebu, cefnogi a herio ar lefel uwch rhwng y rhanddeiliaid allweddol, ac yn gadael i GwE fonitro, yn fwy effeithiol ac amserol, effaith y gwaith a chynnydd ysgolion yn erbyn blaenoriaethau cyffredin. Drwy gyfrwng y dangosfwrdd, mae modd defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar berfformiad pob dysgwr ac ysgol ar draws y rhanbarth. Mae hefyd yn rhoi modd i'r gwasanaeth gwella ysgolion dargedu ei adnoddau yn fwy effeithiol i gyflawni ei flaenoriaethau, ac addasu ac ail gyfeirio adnoddau yn gyflym pan nad yw pethau yn llwyddo. | Gweler y dystiolaeth yn 'Ffeil Prosiect CIEREI'<br><br>CIEREI CASE STUDY-DRAFT.pdf<br><br>Impact Evaluation of 2016_17_final MLI<br><br>MLDP Impact & Influence v2.pdf |
| **Cynnydd: Da Iawn. Rhoddwyd sylw i'r argymhelliad hwn ym mhob ystyr ac nid oes angen rhoi sylw pellach i'r un agwedd. Mae'r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth yn dda iawn.** | |

| A3: Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg. | Tystiolaeth |
|---|---|
| Yn dilyn yr arolygiad craidd, aeth GwE ati i gynnal adolygiad trylwyr o'i weithdrefnau a'i drefniadau rheoli risg. Cyflwynwyd trefniadau trylwyr a chyfansawdd i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Caiff y Gofrestr Risg ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfod yr uwch dîm arweinyddiaeth, ac yn chwarterol gan y pwyllgor rheoli a'r Cyd-bwyllgor.<br><br>Mae'r trefniadau monitro a chynllunio busnes newydd yn sicrhau y caiff cynnydd ei adolygu a'i raddio'n briodol. Mae'r trefniadau monitro trosfwaol gan ymgynghorwyr her arweiniol ac uwch arweinwyr yn gofalu bod risgiau, ar bob lefel, yn cael eu rheoli'n briodol ac y cytunir ar ymyraethau mewn ffordd amserol a phriodol. Mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn monitro'r trefniadau hyn yn agos. Drwy reoli risg y rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y sefydliad, defnyddio adnoddau yn effeithiol, a chyflawni'r deilliannau fel y bwriadwyd.<br><br>Mae GwE hefyd yn darparu adroddiadau cynnydd misol ar ddatblygiadau o fewn bwrdd Rhaglen Cwricwlwm Cymru, ac yn adolygu risg o fewn fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n sicrhau bod pob risg yn cael ei mesur a'i lliniaru wrth symud ymlaen. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dangosfwrdd ysgol, a fydd yn weithredol yn Nhymor yr Hydref. Bydd hyn yn darparu fframwaith a strwythur i ysgolion gael gweld eu cynnydd yn erbyn cerrig milltir a dangosyddion penodol o fewn diwygiadau cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus. Gallant, fel y cyfryw, ofalu bod unrhyw risg i ysgolion ar draws y rhanbarth, hefyd yn cael eu hadnabod yn fuan, a'u lliniaru. Mae Dyfodol Llwyddiannus hefyd yn ymddangos o fewn Cofrestr Risg GwE. | Cofrestr Risg<br>Cynlluniau Busnes<br>Cofnodion i ddangos newidiadau yn y gofrestr |
| **Cynnydd: Da Iawn. Rhoddwyd sylw i'r argymhelliad hwn ym mhob ystyr ac nid oes angen rhoi sylw pellach i'r un agwedd. Mae'r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth yn dda iawn.** | |

| **A4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.** | |
|---|---|
| Mae model cynllunio a rheoli perfformiad GwE yn nodi'n glir weledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Mae'r cynllun strategaeth lefel uchel yn perthyn i gynlluniau manylach gan y tîm, gyda thargedau gwella mesuradwy a meini prawf llwyddiant eglur, er mwyn mesur cynnydd yn y rhanbarth yn fanwl gywir. Mae GwE wedi gosod amcanion heriol a mesuradwy erbyn 2020 i wella safonau, cwricwlwm, ac asesu, arweinyddiaeth, lles ac addysgu, sy'n ffurfio rhan o'r cynlluniau busnes ar bob lefel. Yn y cynlluniau sydd wedi'u costio'n llawn, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny. Mae holl gynlluniau tîm GwE yn dilyn yr un patrwm, a chaiff eu perfformiad ei fonitro'n effeithiol ac yn fanwl. Mae llinellau atebolrwydd clir ar bob lefel o gynllunio ar draws GwE.<br><br>Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn gryfder pwysig yn GwE. Mae cynlluniau manwl ar amryw o lefelau yn delio gyda phob agwedd ar waith GwE. Mae'r swyddogion dynodedig sydd yn gyfrifol am bob cynllun, yn amlwg yn cyfrannu at y cynllun busnes. Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl sydd wedi'u seilio ar y fframwaith hwn. Bydd Ymgynghorwyr Her yn adolygu eu cynlluniau pob chwarter, ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Yr adolygiadau hyn sy'n llywio gwaith arfarnu'r cynllun busnes, sy'n bwydo i arfarniad chwarterol y gwasanaeth fel bod hoel clir o arfarnu tîm yn yr adolygiad corfforaethol. Yna, caiff blaenoriaethau newydd o'r adolygiad gwasanaeth eu cynnwys mewn cynlluniau tîm yn gyflym.<br><br>Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Drwy rannu cynlluniau ac arfarniadau yn agored, mae hyn yn glynu timau at ei gilydd ac yn gyrru'r cydweithio cryf sydd wedi arwain at ddarparu gwasanaethau gwell, a gwella safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion.<br><br>Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. Mae'r pwyslais hwn ar arfarnu ac adolygu yn arwain at welliant sylweddol.<br><br>Arferion llwyddiannus o fewn GwE sydd wedi arwain at y meddylfryd hwn. Rhaid i Ymgynghorwyr Her gyfiawnhau tanberfformiad ac adnabod risgiau posibl, gan gynnwys gorwario. Mae llinellau atebolrwydd clir wedi'u diffinio. | Cynlluniau busnes<br>Adroddiadau monitro<br>Adroddiadau Monitro chwarterol yr ALI<br>Adroddiad monitro rhanbarthol chwarterol |
| **Cynnydd: Da Iawn. Rhoddwyd sylw i'r argymhelliad hwn ym mhob ystyr ac nid oes angen rhoi sylw pellach i'r un agwedd. Mae'r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth yn dda iawn.** | |

| A5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor. | |
|---|---|
| Yn dilyn yr adolygiad craidd, comisiynodd y pwyllgor rheoli adolygiad manwl o'r gwasanaeth gwella ysgolion, oedd yn cynnwys rôl y rhwydweithiau rhanbarthol. Derbyniodd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad.<br><br>O ganlyniad, cafwyd naill ai gwared ar y rhwydweithiau rhanbarthol hanesyddol, neu eu cynnwys o dan reolaeth strategol GwE. Mae eu hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor yn glir.<br><br>Mae swyddog arweiniol enwebedig, cynllun busnes manwl a meini prawf llwyddiant mesuradwy ar gyfer pob maes. Y person arweiniol sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd ac adrodd pob chwarter i uwch reolwyr. Caiff materion sydd angen sylw eu cyfeirio at y Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol i'w hystyried ymhellach. | Strwythur Atebolrwydd (Gweler Cynlluniau Busnes)<br>Adroddiadau monitro |
| **Cynnydd: Cryf. Rhoddwyd sylw i'r argymhelliad yn y rhan fwyaf o ystyron, a dim ond mân agweddau sydd angen sylw pellach. Gwelir effaith gadarnhaol safonau a darpariaeth ar y cychwyn.** | |

| A6: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn. | Tystiolaeth |
|---|---|
| Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.<br><br>Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ein cefnogi wrth gyflawni'r cynllun busnes diwygiedig dros dair blynedd. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.<br><br>Gwnaed gwaith manwl i gysoni dyraniadau grant gyda'n blaenoriaethau. Mae ymgynghorwyr her bellach yn herio ysgolion ar eu defnydd o arian grant, gyda set pendant o feini prawf i bwyso a mesur sut maent yn defnyddio'r arian hwn. Gwelwyd hyn yn lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran gweld beth yw effaith defnyddio'r arian grant ar ddeilliannau disgyblion.<br><br>Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.<br><br>Rydym bellach yn arfarnu ac yn adolygu ein gwasanaethau a'n mentrau tra byddant wrthi'n cael eu gweithredu, a hynny er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant a gwerth am arian.<br><br>Mae'r Mynegai Iechyd Sefydliadol (OHI) yn rhoi canfyddiadau manwl o ran sut mae GwE yn perfformio yn erbyn y naw elfen iechyd, sy'n gysylltiedig â pherfformiad o gymharu ag 1,300 o gwmnïau rhyngwladol eraill. Yn ein hadroddiad, nodir bod GwE yn sefydliad yn y chwartel uchaf, gyda chryfderau neilltuol o ran cyfeiriad, galluoedd, ac arweinyddiaeth<br><br>Drwy hyn, ceir darlun trylwyr o ba mor iach yw'r sefydliad. Gellir cymharu'r canlyniadau yn erbyn eraill. Mae hefyd yn rhoi GwE mewn sefyllfa i weld cryfderau presennol y sefydliad, a'i hanghenion o ran datblygu, a'n helpu ni i ddeall ble mae angen gweithredu er mwyn cynnal y lefelau presennol, neu wella arnynt dros amser.<br><br>Mae GwE yn gweithio gyda'r OECD i gynnal peilot i ddatblygu'r Consortia fel sefydliad sy'n dysgu. Rhennir unrhyw beth a ddysgir o'r gwaith hwn gyda rhanbarthau eraill, ac yn rhyngwladol, gan ein bod yn ymdrechu i ddatblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.<br><br>Mae'r strwythur cynllunio busnes presennol yn rhoi sylfaen dda i fonitro perfformiad o fewn y timau cynradd, uwchradd a Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r mewnbynnau a'r allbynnau wedi'u meintioli yn | Amcanion 2020 (gweler Cynlluniau Busnes)<br>Dadansoddi perfformiad (gweler A1 uchod)<br>Astudiaethau achos GaA (gweler A1 uchod)<br>Cynlluniau busnes ar lefel 3<br>Monitro cynlluniau busnes<br>Monitro gwariant yr ALl<br>Agenda a chofnodion y Bwrdd Atebolrwydd Busnes<br>Agenda a chofnodion yr is-grŵp Cyllid<br><br>Cynllun gweithlu<br>Adroddiad Iechyd Sefydliadol<br>MTFP<br><br>Polisi GaA<br>Fframwaith GaA<br><br>Cofnodion yr is-grŵp busnes a chyllid<br>Adroddiadau Archwilio mewnol ac allanol<br>Cyfrifon diwedd blwyddyn<br><br>Adroddiad OHI<br><br>Cynllun Busnes YSD |

| | |
|---|---|
| fanylach er mwyn rhoi fframwaith ystyrlon ar gyfer asesu gwerth am arian. Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd datblygu hyn:<br>• ymestyn yr wybodaeth yn y cynlluniau busnes.  Mae hyn yn gofyn am adnabod yr adnoddau a ddefnyddir i ddarparu'n erbyn pob cam gweithredu a hefyd, ble'n bosibl, meintioli'r camau gweithredu a'r meini prawf yn fwy byth.  Mae hyn wedi hwyluso ein gwaith fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun busnes ac wedi rhoi gwybodaeth allweddol am werth am arian;<br>• sefydlu set ychwanegol o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur perfformiad a iechyd sefydliadol yn gyffredinol;<br>• arfarnu'n gadarn effaith ein gwaith, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor (CIEREI) i arfarnu, adolygu a gwneud gwelliannau. | |
| **Cynnydd:  Cryf. Rhoddwyd sylw i'r argymhelliad yn y rhan fwyaf o ystyron, a dim ond mân agweddau sydd angen sylw pellach.  Gwelir effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth ar y cychwyn.** | |